

BRO MORGANNWG

CYNLLUN DATBLYGULLEOL NEWYDD 2021-2036

Defnyddiau canolfannau manwerthu

Tachwedd 2025



PAPUR CEFNDIR - PB47A



Crynodeb Gweithredol

- I. Mae'r papur cefndir hwn yn un o gyfres a gynhyrchwyd gan Gyngor Bro Morgannwg ac mae'n rhan o'r sylfaen dystiolaeth i lywio'r polisïau a'r dyraniadau safleoedd yn y Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN) Adneuo. Gellir darllen pob papur cefndir ar ei ben ei hun neu ynghyd â phapurau cefndir eraill i gael dealltwriaeth ehangach o'r materion defnydd tir sy'n wynebu Bro Morgannwg.
- II. Mae'r papur hwn yn adolygu'r polisi cenedlaethol a lleol presennol ynghylch defnyddiau manwerthu mewn canolfannau manwerthu dynodedig. Mae'n asesu'r dull y dylid ei gymryd i fynd i'r afael â'r gyfran o ddefnyddiau A1 a defnyddiau nad ydynt yn A1 o fewn ffiniau dynodedig y canolfannau manwerthu ac effeithiau gorgrynhoad o ddefnyddiau nad ydynt yn A1. Mae'r papur yn gweithio ar y cyd â BP47 – Adolygiad o Ffiniau Manwerthu i roi mwy o hyblygrwydd yn y defnydd o unedau manwerthu.
- III. O ganlyniad i'r papur cefndir hwn, ni argymhellir unrhyw bolisi manwl i ddarparu terfynau uchaf i ddefnyddiau nad ydynt yn A1 yn y gwahanol fathau o ganolfannau yn yr hierarchaeth manwerthu. Mae'n cydnabod bod cael gwared ar ffryntiadau cynradd ac eilaidd yn caniatáu hyblygrwydd yn y ganolfan fanwerthu, ond y byddai gorgrynhoad sylweddol o ddefnyddiau nad ydynt yn A1 yn dal i niweidio hyfywedd ac atyniad y canolfannau.
- IV. Yn hytrach, argymhellir bod cyfran pob defnydd yn cael ei fonitro ym mhob Cyfnod Monitro Blyneddol (CMB) yn ystod cyfnod mabwysiadu'r CDLIN a dylai cynnydd sylweddol mewn defnyddiau nad ydynt yn A1 a gostyngiadau mewn defnyddiau A1 fod angen ymyrraeth. Dylid gwneud hyn ar gyfer canolfannau tref ac ardal yn ogystal â chanolfannau pentref, lleol a chymdogaeth. Nid oes unrhyw dargedau monitro penodol wedi'u gosod yn y papur cefndir hwn oherwydd bod cryn dipyn o amser rhwng y cyfnod monitro a pharatoi'r papur hwn ac oherwydd y newidiadau sy'n debygol o ddigwydd yng nghyfansoddiad canolfannau manwerthu Bro Morgannwg



Cyngor Bro Morgannwg

Cyfarwyddiaeth Lleoedd

Swyddfeydd Dinesig

Heol Holltwn

Y Barri CF63 4RU

LDP@bromorgannwg.gov.uk

www.bromorgannwg.gov.uk

